Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Fawrth, 8 Mai am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Gavin Harris, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

82. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

83. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

84. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2018 yn gywir.*

85. MATERION YN CODI
Cyfeiriwyd at y blociau cerrig ym maes parcio Heol y Parc, a'u bod wedi gweithio i ddatrys y broblem. Cynigiwyd y dylai Cyngor Tref Rhuthun dalu am blanhigion fel llwyni yn y planwyr.
***PENDERFYNWYD**: gwneud trefniadau i roi planhigion yn y planwyr a'u dyfrio.*

86. PRISIAU DYFRIO'R BASGEDI CROG 2018-2020
Cyflwynwyd dau ddyfynbris ar gyfer dyfrio'r basgedi crog am y cyfnod tair blynedd 2018-2020.
***PENDERFYNWYD**: dyfarnu'r cytundeb i J & C Brimble am £3,411.00 yn 2018, £3,481.74 yn 2019 a £3,547.77 yn 2020.*

87. GOLEUO'R GOFEB RHYFEL
Esboniodd y Clerc na chafwyd ymateb gan y ddau gwmni roedd hi wedi cysylltu gyda nhw. Cynigiodd y Cynghorydd Gavin Harris brynu un o'r goleuadau ei hun er mwyn cynnal profion ynghylch cryfder ac addasrwydd y golau.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cynnig y Cynghorydd Harris.*

88. ARWYDDION FFORDD GLASDIR
Derbyniwyd dyfynbris gan Gyngor Sir Ddinbych yn nodi bod angen pedwar arwydd ar gost o £882.16 (heb TAW). Nodwyd bod angen gwirio pwy fyddai'n gyfrifol am yr arwyddion ar ôl eu rhoi yn eu lle.
***PENDERFYNWYD**: bwrw ymlaen i archebu'r arwyddion a threfnu i Gyngor Sir Ddinbych eu gosod.*

Diolchwyd i'r Cynghorydd Menna Jones am gadeirio'r Pwyllgor mor ddeheuig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

89. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 11 Mehefin 2018 am 7:30pm.*